## ATODLEN 1

Rheoliadau 4 a 6

Gwybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi yng nghofrestrau cyforgronfeydd dŵr mawr Cymru

**1.** Enw a safle'r gronfa ddŵr.

**2.** Cyfeirnod grid cenedlaethol y gronfa ddŵr.

**3.** Enw a chyfeiriad pob ymgymerwr sydd yn gyfrifol am y gronfa ddŵr.

**4.** Crynodeb o gynnwys pob tystysgrif neu adroddiad a wnaed o dan Ddeddf 1975, neu Ddeddf 1930, gan gynnwys—

(a) enw a chyfeiriad y peiriannydd sy'n rhoi'r dystysgrif neu'n gwneud yr adroddiad;

(b) yr adran o ba bynnag Ddeddf y rhoddir y dystysgrif neu y gwneir yr adroddiad oddi tani;

(c) pan nad yw tystysgrif derfynol wedi ei rhoi o dan Ddeddf 1975, datganiad o'r ffaith honno;

(d) pan nad yw tystysgrif derfynol wedi ei rhoi o dan Ddeddf 1930 am fod gwaith adeiladu neu addasu'r gronfa ddŵr wedi ei gwblhau cyn dechrau'r Ddeddf honno, datganiad o'r ffaith honno.

**5.** Yr wybodaeth ganlynol os caiff ei datgelu gan unrhyw dystysgrif, adroddiad neu ddatganiad—

(a) categori'r gronfa ddŵr (cronfa sy'n cronni neu gronfa nad yw'n cronni);

(b) y flwyddyn/blynyddoedd y cafodd argae/argaeau, waliau neu argloddiau'r gronfa ddŵr eu cwblhau;

(c) adeiladwaith yr argae/argaeau, waliau'r gronfa ddŵr neu arglawdd/argloddiau (h.y. boed wedi ei adeiladu o bridd, cerrig, disgyrchiant, bwtres neu ddull arall);

(d) lefel uchaf yr argae/argaeau, waliau neu arglawdd/argloddiau'r gronfa ddŵr gan gyfeirio at Ddatwm Ordnans;

(e) lefel uchaf dŵr y gronfa ddŵr gan gyfeirio at Ddatwm Ordnans;

(f) uchder mwyaf yr argae/argaeau, waliau neu arglawdd/argloddiau'r gronfa ddŵr wedi ei fesur mewn metrau o lefel naturiol isaf y tir amgylchynol, i frig yr argae/argaeau, waliau neu argloddiau'r gronfa ddŵr, ac eithrio uchder y wal donnau;

(g) capasiti'r gronfa ddŵr;

(h) arwynebedd dŵr y gronfa ddŵr ar lefel uchaf y dŵr (mewn metrau sgwâr neu gilometrau sgwâr).

**6.** Enw a chyfeiriad busnes y peiriannydd goruchwylio neu, os yw'r gronfa ddŵr o dan oruchwyliaeth y peiriannydd adeiladu, enw a chyfeiriad busnes y peiriannydd hwnnw.

**7.** Dyddiad cynnal yr arolygiad nesaf o dan Ddeddf 1975 neu unrhyw ddyddiad yr argymhellir y dylid cynnal yr arolygiad nesaf o dan Ddeddf 1975 gan y peiriannydd goruchwylio neu arolygu.

**8.** Manylion unrhyw benodiad a wnaed gan CANC o dan adran 15 o Ddeddf 1975.

**9.** Manylion unrhyw benodiad a wnaed gan CANC o dan adran 16 o Ddeddf 1975, gan gynnwys y dyddiad y cofnodwyd y manylion.

**10.** Pa un a ddynodir y gyforgronfa ddŵr fawr yn un â pherygl uchel.